Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae **gofal** a **chymorth** yng **Nghymru** yn newid

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi mwy o lais i chi yn eich gwasanaethau.

Rwy'n **berson hŷn,** beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Gofynnir i mi beth sy'n bwysig i mi. Mae gen i lais cryf wrth benderfynu beth sydd ei angen arnaf i sicrhau fy llesiant.

Os oes angen cymorth arnaf i godi fy llais, bydd rhywun yn siarad ar fy rhan.

Mae'r asesiad yn edrych ar yr hyn rwy'n gallu ei wneud, yr hyn rwy'n gallu ei wneud gyda chymorth ffrindiau a theulu, ac yna'n trefnu gofal a chymorth i mi gyda'r hyn nad ydw i'n gallu ei wneud.

Mae gen i fynediad hawdd at wybodaeth a chyngor.

Mae'r cyfreithiau sy'n fy nghadw'n ddiogel yn gryfach.

Mae mwy o wasanaethau ar gael i mi gael help pan mae ei angen arnaf, fel nad yw problemau'n gwaethygu.

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27296